



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwella Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Bwrsariaeth GIG Cymru

Eich canllaw i deall y fwrsariaeth

SUT MAE'N GWEITHIO?

Mae myfyrwyr nyrsys, gweithwyr proffesiynol gwyddor gofal iechyd, bydwragedd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol perthynol (AHPs) sy'n ymrwmo i weithio yng Nghymru am hyd at ddwy flynedd ar ôl cymhwyso yn gymwys i wneud cais am y fwrsariaeth. Mae hyn yn darparu cymorth nad yw'n ad-daladwy sy'n cwmpasu ffioedd dysgu.



BETH YW'R YMRWYMIAD?

Os dewisoch gael gafael ar gyllid drwy'r cynllun, rydych yn ymrwmo i weithio o fewn Cymru am gyfnod o ddeunaw mis - dwy flynedd yn dibynnu ar y cwrs rydych chi'n ei ddewis.

BETH YW'R BROSES?

- 1 Penderfynwch ar eich cwrs prifysgol gofal iechyd
- 2 Derbyn cynnig lle gan eich prifysgol
- 3 Gwnewch gais i gael eich asesu ar gyfer y fwrsariaeth cyn gynted ag y byddwch yn derbyn eich cynnig
- 4 Derbyn eich bwrsariaeth
- 5 Gwneud cais am gyllid myfyrwyr os yw'n gymwys
- 6 Cwblhau eich cwrs prifysgol yn llwyddiannus
- 7 Sicrhewch eich cynnig swydd yn eich proffesiwn dewisol a dechrau eich gyrfa yng Nghymru



PAM GIG CYMRU?

GIG Cymru yw'r cyflogwr mwyaf yng Nghymru — sy'n cyflogi dros 90,000 o bobl. Mae gennym dros 350 o wahanol gyfleoedd gyrfa sy'n cwmpasu amrywiaeth enfawr o rolau clinigol ac anghlinigol.

Mae GIG Cymru yn buddsoddi yn eu staff er mwyn eu galluogi i ddatblygu yn eu rôl neu yrfa ddewisol. Rydym yn cynnig llwybrau datblygu strwythuredig ynghyd â chyfleoedd ar gyfer dilyniant a datblygiad personol.



BETH ALLA I'W DDISGWYL?

Yn gyfnewid am hyd at ddwy flynedd o ymrwymiad llawn amser i weithio yng Nghymru, gallwch dderbyn:

| Swm £ | Telerau |
|-------------|--|
| 1,000 | Fesul blwyddyn academaidd (cyfanswm o £3,000) |
| 9,000 | Ffioedd dysgu fesul blwyddyn academaidd (cyfanswm o £27,000) ar ôl asesu |
| 2,643/2,207 | Grant Cynnal a Chadw ar Brofion Modd ar gyfer treuliau byw hyd at £2,643 neu hyd at £2,207 os ydych yn byw mewn cartref rhieni |


Mae cymorth prawf modd hefyd ar gael yn seiliedig ar amgylchiadau ariannol unigol ar gyfer enghraifft gofal plant neu anabled.

| Trefniadau byw | Cyfradd is gyfredol o fenthyciad cynnal a chadw £ | Uchafswm o benthyciad cynhaliath £ ar gael ar gyfer blwyddyn academaidd ¹ 2024/25 | Gwahaniaeth (+) |
|--------------------|---|--|-----------------|
| Cartref rhieni | 4,475 | 9,315 | 4,840 |
| Mewn mannau eraill | 5,360 | 11,150 | 5,790 |

Mae'r ffigurau presennol a ddarluniwyd yn dangos yr uchafswm benthyciadau cynnal a chadw yn seiliedig ar gyfraddau 2023/24, bydd y rhain yn cael eu diweddarau yn y dyfodol.

BLE ALLA I ASTUDIO?

Mae gan Gymru saith prifysgol sy'n cynnig ystod o raddau gofal iechyd. I ddod o hyd i brifysgol sy'n ymwneud â'r cwrs o'ch dewis mae rhestr ar gael isod.



MWY O WYBODAETH?

Mae'n bwysig deall eich ymrwymiad yn llawn cyn cymryd y fwrsariaeth. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: aagic.gig.cymru/bwrsariaeth-gig neu pcgc.gig.cymru/ein-gwasanaethau/gwasanaethau-dyfar-niadau-myfyrwyr/ Gallwch hefyd anfon e-bost atom drwy: heiw.bursary@wales.nhs.uk